# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, CARTREFI AC ADFYWIO

**Dydd Iau 28ain Medi 2023**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D.M. Cundy (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**
B.W. Jones T. Davies M. Thomas

**Cynghorwyr (Yn Rhithwir):**
K.V. Broom W.R.A. Davies R.E. Evans H.L. Davies
J.K. Howell D. Owen R. Sparks

**Cynghorwyr hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
Y Cynghorydd L.D. Evans - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Gartrefi
Y Cynghorydd H. Evans - Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth
Y Cynghorydd A. Lenny - Aelod Cabinet dros Adnoddau

**Hefyd yn bresennol (Yn Rhithwir):**
Y Cynghorydd A Davies - Aelod Cabinet dros Faterion Gwledig a Pholisi Cynllunio

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
J. Jones, Pennaeth Adfywio, Pholisi a Digidol
I. Jones, Pennaeth Hamdden
J. Morgan, Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd
R. Parkinson, Arweinydd Tim - Cyngor ynghylch Tai
A. Jones, Arweinydd Rheoli Tai (Incwm)
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau

**Hefyd yn bresennol (Yn Rhithwir):**
A. Thomas, Cyfrifydd Grŵp
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP ac o bell : 10.00 yb – 11.45 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Davies, M. Palfreman a H. Shepardson.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| R. Sparks | 7 - Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored | Mae ganddo fusnes nofio a gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i |

| | | |
|---|---|---|
| | 8 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24<br>9 – Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2022-23 | siarad a gwneud sylwadau ysgrifenedig ond nid pleidleisio, oni bai mewn perthynas ag unrhyw fater yn ymwneud â Chanolfan Hamdden Caerfyrddin |
| K. Broom | 7 - Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored<br>8 – Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf 2023/24 | Personol – Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Canolfan Hamdden Trimsaran |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. ADOLYGIAD O'R POLISI YNGHYLCH TALIADAU AM WASANAETHAU TAI

Bu’r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn amlinellu’r 3 opsiwn canlynol o ran gweithredu Polisi yn y dyfodol ynghylch Taliadau am Wasanaethau a hynny ar gyfer taliadau a wneir gan Ddeiliaid Contract (tenantiaid neu lesddeiliaid) am wasanaethau ychwanegol a ddarperir gan y Cyngor o ran mannau cymunedol a rennir neu gyfleusterau mewn blociau o fflatiau sy’n eiddo i’r Cyngor, cynlluniau gwarchod neu brosiectau tai â chymorth a oedd yn fwy na’r rhent cyffredinol, fel y nodir yn yr adroddiad:

- Opsiwn 1: Gwneud Dim – Cadw’r Polisi presennol ynghylch Taliadau am Wasanaethau gyda chap ar unrhyw gynnydd blynyddol posibl o ran ei dâl rhent cyffredinol (gan gynnwys Taliadau am Wasanaethau), sef uchafswm o £3 o gynnydd bob wythnos.
- Opsiwn 2: Gwaredu’r cap yn gynyddrannol – Adolygu a diwygio’r polisi presennol gyda’r bwriad o gyflwyno cynnydd cynyddrannol dros gyfnod o 3 blynedd er mwyn sicrhau bod yr holl daliadau am wasanaethau’n unol ag adennill costau’n llawn. Bydd y cap yn dod i rym dim ond pan fydd taliadau’n fwy na’r cap wythnosol y cytunwyd arno.
- Opsiwn 3: Gwaredu’r Cap – Gwaredu’r cap yn llwyr o’r polisi presennol gyda deiliaid contract yn talu’r gost yn llawn am ddefnydd o 2024/25.

Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor, o dan y Polisi presennol ynghylch Taliadau am Wasanaethau, yn gweithredu ‘cap’ a oedd yn golygu bod unrhyw gynnydd o ran taliadau am wasanaethau’n cael ei gyfyngu i uchafswm o £3 yr wythnos, gyda’r cynnydd yn y gost fesul tenant yn amrywio yn ôl y math o lety a lefel y costau am wasanaethau yr eir iddynt. Talwyd unrhyw wahaniaeth rhwng lefel y cynnydd yng nghostau’r Awdurdod, a’r hyn a dalwyd gan ddeiliaid contract o ganlyniad i’r cap, o’r Cyfrif Refeniw Tai (HRA), ac yn seiliedig ar wariant gwirioneddol 2021/22, sef £903k wedi’i osod yn erbyn £762k o gostau a adenillwyd, roedd y Cyfrif Refeniw

Tai wedi talu am y diffyg o £141k. Ond, yn dilyn cynnydd sylweddol mewn costau cyfleustodau ar gyfer 2022/23, gallai'r gwariant gwirioneddol yn y dyfodol fod yn sylweddol uwch, a phe byddai'r cap presennol yn cael ei gadw byddai'r bwlch rhwng y costau yr eir iddynt a'r costau a gaiff eu hadennill yn cynyddu, gan effeithio ymhellach ar Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a'i allu i fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Nodwyd bod 40% o denantiaid ar hyn o bryd a oedd yn elwa ar y cap yn cyrraedd uchafswm y cap, sef £3 bob wythnos. Yn flaenorol, roedd hynny'n 25%.
- Mynegwyd pryderon y gallai gwaredu'r cap arwain at rai tenantiaid yn mynd i ôl-ddyledion. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd y byddai'r Cyngor, o dan amgylchiadau o'r fath, yn gweithio gyda'r tenantiaid i liniaru yn erbyn hynny ac i helpu i'w hatal rhag mynd i ôl-ddyledion. Yn ogystal, gallai taliadau Budd-daliadau Tai a Chredyd Cynhwysol hefyd gwmpasu rhan o unrhyw gynnydd, ac mai rhan o rolau'r swyddogion oedd sicrhau bod tenantiaid yn cael y budd-daliadau cywir.
- Cyfeiriwyd at Opsiwn 2 a'r effaith bosibl ar denantiaid ar ddiwedd y cyfnod o 3 blynedd pan fyddai'r holl daliadau am wasanaethau'n cael eu seilio'n unol ag adennill costau'n llawn. Awgrymwyd, o ystyried y pryderon uchod ynghylch y posibilrwydd y byddai tenantiaid yn mynd i ôl-ddyledion ar ôl gwaredu'r cap, y dylai'r sefyllfa gael ei hadolygu'n rheolaidd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**3.1 argymell i'r Cabinet y dylid mabwysiadu Opsiwn 2 fel Polisi'r Cyngor yn y dyfodol ynghylch Taliadau am Wasanaethau ond ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd**

**3.2 Cyfleu pryderon y Pwyllgor i'r Cabinet ynghylch yr effaith bosibl y gallai'r hinsawdd economaidd bresennol, yr argyfwng costau byw a'r polisi newydd ei chael ar allu'r tenantiaid i dalu/mynd i ôl-ddyledion a bod swyddogion yn darparu cymorth/cefnogaeth i denantiaid o ran rheoli eu cyllidebau lle bo angen.**

## 5. CYMHWYSO BWRIADOLDEB I ANGEN BLAENORIAETHOL (GORCHYMYN DIGARTREFEDD)

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch y Cyngor yn cadw bwriadoldeb i bob un o'r 10 categori angen blaenoriaethol a restrir o dan y Ddeddf (Cymru) Tai 2014 (fel y nodwyd yn yr adroddiad ac a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2015) a hefyd i gymhwyso bwriadoldeb i'r 11eg categori, sef Digartrefedd Stryd, fel y'i cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at bwynt 5.1 yn yr adroddiad lle daeth penderfyniadau am ddigartrefedd a wnaed yn 2019-20 i'r casgliad fod 3% o denantiaid yn ddigartref yn fwriadol. Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y sefyllfa bresennol a nifer yr apelwyr a glustnodwyd fel rhai sy'n ddigartref yn fwriadol.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 18 o’r 2,738 o bobl a gyflwynwyd yn ddigartref i’r Cyngor yn 2022/23 wedi’u nodi fel rhai a oedd yn ddigartref yn fwriadol.

- Nododd y Pwyllgor fod dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu llety dros dro am gyfnod o 56 diwrnod pan fo person wedi cael ei gyflwyno fel unigolyn digartref, a hynny er mwyn gallu cynnal gwiriadau priodol i gadarnhau a oedd digartrefedd gwirioneddol wedi digwydd. Os daeth tystiolaeth i’r casgliad yn ystod y cyfnod hwnnw fod person yn ddigartref yn fwriadol, nid oedd gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol mwyach i ddarparu llety iddynt ar ôl i’r cyfnod o 56 diwrnod ddod i ben a byddai’r unigolyn yn cael gwybod am hynny.
- Cadarnhawyd bod y rhai sy’n ‘symud o soffa i soffa’ yn dod o dan y 10 categori angen blaenoriaethol yn y Ddeddf Tai
- Mewn perthynas â chwestiwn ynghylch y math o dystiolaeth/meini prawf sy’n ofynnol i brofi bwriadoldeb, dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu’r Cyhoedd y byddai ymchwiliadau’n cael eu cynnal gydag asiantaethau perthnasol ac aelodau’r teulu ac ati i ganfod a oedd bwriadoldeb wedi digwydd. Os oedd bwriadoldeb wedi’i brofi, roedd gan berson hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw.
- Cadarnhawyd y gallai person a benderfynwyd yn flaenorol ei fod yn ddigartref yn fwriadol gael ei ailgyflwyno fel rhywun digartref ond y byddai pob ailgyflwyniad yn cael ei bennu fesul achos a byddai’n rhaid i’r person ddangos tystiolaeth fod ei amgylchiadau wedi newid, er enghraifft, byddai’n rhaid iddo brofi nad oedd ei ymdrechion i ddod o hyd i’w lety ei hun wedi bod yn llwyddiannus.
- Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu’r Cyhoedd, mewn perthynas ag achosion ailadroddus o fwriadoldeb, y byddai’n trefnu i eitem ynghylch hynny gael ei chynnwys yn yr adroddiad monitro nesaf a gyflwynwyd i’r Pwyllgor ar y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo cadw bwriadoldeb ar gyfer pob un o'r 10 categori angen blaenoriaethol a restrir o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a bod y Cyngor hefyd yn cymhwyso bwriadoldeb i'r 11eg categori, sef Digartrefedd Stryd.**

## 6. ADRODDIAD DIWEDDARU - DYRANNU TAI CYMDEITHASOL BRYS YNGHYLCH RHOI'R POLISI DYRANNU NEWYDD AR WAITH (MONITRO)

Yn unol â'r penderfyniad a wnaed yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr 2023, cafodd y Pwyllgor adroddiad monitro ar effeithiolrwydd y Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys newydd a luniwyd gan ei Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Nodwyd bod yr adroddiad yn cynnwys data ar gyfer y cyfnod blaenorol yn ymwneud â'r canlynol:-

1. Cyfran yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol â'r rhai a hysbysebwyd,
2. Y band os oedd y cleientiaid wedi’u paru’n uniongyrchol,
3. Nifer yr eiddo a barwyd yn uniongyrchol ac a hysbysebwyd gan bob ardal gymunedol, math o eiddo a landlord,
4. Cyfran yr achosion o baru uniongyrchol a oedd yn llwyddiannus,
5. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle roedd y cleient wedi gofyn am adolygiad o'r dyraniad, a chanlyniad yr adolygiadau hynny.
6. Nifer yr achosion o baru uniongyrchol lle roedd y cleientiaid wedi gwrthod y dyraniad ond nid oedd wedi gofyn am adolygiad.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at ystyriaeth flaenorol y Pwyllgor ynghylch natur dros dro'r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol a’r angen i’r Cyngor fabwysiadu polisi parhaol. Tynnwyd ei sylw at yr amserlen o fewn yr adroddiad i fabwysiadu polisi ffurfiol yn dechrau ym mis Tachwedd 2023 gyda’r bwriad o fabwysiadu’n ffurfiol erbyn mis Rhagfyr 2024. Cadarnhawyd hefyd yr ymgynghorir â’r Pwyllgor ynghylch y polisi.
- Mewn ymateb i gwestiwn ar ostyngiad o ran nifer yr eiddo sy’n paru’n uniongyrchol, priodolwyd hynny’n rhannol i’r galw am lety gwarchod mewn rhai ardaloedd. Dywedodd y Pennaeth Tai a Diogelu’r Cyhoedd fod gan y Cyngor 21 o gynlluniau tai gwarchod ar hyn o bryd yn darparu llety ar gyfer 6-700 o bobl, gyda rhai cynlluniau’n anoddach i’w rhentu nag eraill. Awgrymodd y gallai fod yn amserol i adolygu’r ddarpariaeth honno a’i phwrpas wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad monitro.**

## 7. STRATEGAETH HAMDDEN, DIWYLLIANT, A HAMDDEN AWYR AGORED

[NODER: Roedd y Cynghorwyr K. Broom a R. Sparks wedi ailddatgan buddiant yn yr eitem hon ar ôl datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Yn dilyn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i’r Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored olaf ar ôl y cyfnod ymgynghori a chyn iddi gael ei hystyried gan y Cabinet.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at effeithlonrwydd ynni canolfannau hamdden y Cyngor ac a oedd ystyriaeth wedi’i rhoi i gaffael batris i storio unrhyw ynni oedd dros ben a gynhyrchwyd gan y paneli solar a osodwyd ar yr adeiladau, a hynny er mwyn defnyddio’r ynni yn y canolfannau hamdden yn hytrach na’i ddychwelyd i rwydwaith y grid trydan.
  Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden, er bod gwaith yn cael ei wneud i sicrhau bod y canolfannau’n effeithlon o ran ynni, roedd angen gwneud rhagor, a chynhaliwyd trafodaethau ynghylch hynny gydag Is-adran Eiddo Corfforaethol y Cyngor ac asiantaethau allanol megis yr Ymddiriedolaeth Garbon. Ond byddai’n codi’r mater ynghylch pecynnau batri gyda'r Is-adran Eiddo Corfforaethol a byddai’n ymateb yn uniongyrchol i’r aelod a gododd y cwestiwn.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y Canlyniadau Economaidd yn yr adroddiad (tudalennau 74-76) a’r £20m o fuddsoddiad ychwanegol yn y gwasanaeth dros gyfnod y Strategaeth, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden fod hyn yn ymwneud â lefel y buddsoddiad y byddai’r gwasanaeth yn bwriadu ei dynnu i lawr i fuddsoddi yn y meysydd a nodir yn yr adroddiad hwn. Gallai’r buddsoddiad hwnnw ddod o amrywiaeth o ffynonellau megis Rhaglen Gyfalaf y Cyngor, mentrau Buddsoddi i Arbed, grantiau a chyllid allanol arall.
- O ran cynhyrchu incwm yn yr Is-adran Hamdden, cadarnhaodd y Pennaeth Hamdden fod hyn bellach wedi dychwelyd i’r lefelau cyn Covid yn y rhan

fwyaf o feysydd. Ond roedd y dyfodol yn parhau i fod yn heriol i'r gwasanaeth o ran costau ynni cynyddol a chostau byw yn effeithio'n andwyol ar lefelau incwm a chostau. Roedd yr Is-adran yn ymdrechu i gynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac roedd yn archwilio cyfleoedd newydd i gynyddu nifer y defnyddwyr/incwm wrth iddynt gael eu cyflwyno, er enghraifft gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd i annog pobl i fod yn fwy egnïol.

- Cyfeiriwyd at un o amcanion y Strategaeth o ran hybu Gweithgarwch Diwylliannol Sir Gaerfyrddin a gofynnwyd am eglurhad ynghylch pa fesurau roedd y Cyngor yn eu cymryd i annog staff i siarad Cymraeg yn y gweithle. Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden fod yr Is-adran yn gweithio gydagg Adran Bolisi'r Cyngor ynghyd â sefydliadau eraill megis yr Urdd, y Cyngor Chwaraeon ac ati i hybu ac i annog y staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Ond gellid gwneud rhagor ac roedd hynny'n cydblethu â datblygiad staff a strategaeth gweithlu corfforaethol newydd.
- Mewn ymateb i gwestiwn am bysgota o fewn y Sir, cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Hamdden ei fod wedi'i gynnwys yn y Strategaeth gyda'r nod o wella lefel y ddarpariaeth o fewn yr amserlen 10 mlynedd. Er mai'r gobaith oedd gwella'r ddarpariaeth o fewn amserlen fyrrach, pwysleisiodd fod y Cyngor yn cael ei lywodraethu gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau allanol eraill o ran hynny o beth. Ond byddai'n gweithio gyda'r cyrff hynny i gynyddu cyfleoedd i bysgota yn y Sir cyn gynted â phosibl.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL argymell i'r Cabinet y dylid mabwysiadu'r Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2023/24

[NODER: Roedd y Cynghorwyr K. Broom a R. Sparks wedi ailddatgan buddiant yn yr eitem hon ar ôl datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau Monitro Cyllideb Refeniw a Chyllideb Gyfalaf 2023/24 y Gwasanaethau Tai, Adfywio ac Eiddo, Lle a Chynaliadwyedd a a'r Gwasanaethau Hamdden ar gyfer y cyfnod hyd at 30 Mehefin, 2023. Nodwyd y rhagwelid gorwariant o £10k yn y gyllideb refeniw, tanwariant o £52,709k yn y gyllideb gyfalaf, a thanwariant o £94k yn y Cyfrif Refeniw Tai.

Codwyd y cwestiynau/materion canlynol ar yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gwestiwn ar lithriadau o fewn y rhaglen Gyfalaf, dywedodd y Pwyllgor nad oedd unrhyw bryder ynghylch cyllid a darpariaeth y prosiectau er bod nifer o resymau dros y llithriadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf yn cael ei dderbyn.**

## 9. ADRODDIAD ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2022/23

[NODER: Roedd y Cynghorydd R Sparks wedi ailddatgan buddiant yn yr eitem hon ar ôl datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Bu’r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Alldro’r Gyllideb Refeniw 2022/23 mewn perthynas â Thai, Adfywio ac Eiddo, Lle a Chynaliadwyedd a’r Gwasanaethau Hamdden sy’n dod o fewn ei gylch gwaith. Nododd fod y gwasanaethau, yn gyffredinol, wedi cofnodi gorwariant o £236k, ac roedd y Cyfrif Refeniw Tai wedi cofnodi gorwariant o £1,496k.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 10. PEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:-

- Cynllun Cymhelliant i Denantiaid
- Defnyddiau Canol Tref Amgen

**PENDERFYNWYD nodi'r eglurhad am beidio â chyflwyno'r adroddiadau.**

## 11. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau ar gyfer y dyfodol a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 15 Tachwedd, 2023.

Cyfeiriwyd at y ffaith nad oedd y Pwyllgor wedi penderfynu eto a ddylid cynnal Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer 2023/24 a gwnaethpwyd awgrym bod un yn cael ei sefydlu ynghylch y modd y mae Gwasanaeth Addasiadau’r Cyngor yn cael ei weithredu o fewn yr Is-adran Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol i archwilio’r ôl-groniad presennol o ran gwaith a phrosesau gyda’r bwriad o wella darpariaeth y gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**11.1 nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 15 Tachwedd 2023.**

**11.2 sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio’r modd y mae Gwasanaeth Addasiadau’r Cyngor yn gweithredu**

## 12. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 29 MEHEFIN 2023

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2023 gan eu bod yn gywir.**

__________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**